

Eisteddfod Penrhyn-coch 2014 - Tlws yr Ifanc

Erthygl gylchgrawn neu bapur newydd ar gyfer pobl ifanc.

Braf oedd derbyn 22 o geisiadau i'r gystadleuaeth. Roeddwn yn falch fod y testun wedi ysgogi cymaint i gystadlu. 'Dw i'n meddwl mod i'n gywir i ddod i'r casgliad fod y gwaith wedi ei wneud fel rhan o waith ysgol uwchradd a hoffwn ddiolch i'r athrawon am roi cymorth i'r ymgeiswyr ac am ei hannog i gystadlu. Y bobl ifanc yma yw cystadleuwyr y dyfodol mewn eisteddfodau felly mae'n bwysig ennyn eu diddordeb mewn cystadlu a mewn eisteddfodau cyn gynted â phosib.

Efallai i chi sylwi i mi ddefnyddio'r gair 'ceisiadau' yn hytrach nac 'erthyglau' wrth nodi'r nifer a ymgeisiodd. Os oedd gwendid cyffredinol yn y gystadleuaeth, y ffaith nad erthyglau oedd peth o'r gwaith ond yn hytrach eitemau o gyflwyno gwybodaeth, oedd hynny. Efallai mod i'n bod yn rhy feirniadol wrth ddweud hyn ond galleid fod wedi addasu rhai ohonynt i fod yn debycach i erthyglau.

Mi oedd y testun yn gofyn am erthyglau addas ar gyfer pobl ifanc ac er nad ydw i'n dod mewn i'r categori hynny mwyach (!), 'dw i ddim yn siwr a fyddai pob un o'r rhain wedi apelio at bobl ifanc.

Serch hynny, ar y cyfan, roedd y ceisiadau'n ddiddorol, wedi eu hysgrifennu'n raenus a chywir a'r themaun amrywio'n o faterion lleol i bethau'n ymwneud â gwledydd eraill.

Dyma air byr am y ceisiadau, nid mewn unrhyw drefn i gychwyn.

Ceiniog

Erthygl am ardal Normandi yn Ffrainc. Digon diddorol i'w darllen a wedi ei gosod yn effeithiol efo lluniau trawiadol yn ychwanegu at ei heffeithiolrwydd. Ddim yn siwr a fyddai hon yn apelio at yr ifanc.

Curly

Mae Curly yn ysgrifennu am dref Zermatt yn Y Swistir. Mae hon yn wahanol i nifer o'r ceisiadau eraill a mae y gwreiddoldeb yn i'w ganmol. Safon yr iaith yn dda a'r erthygl wedi eu rhannu i adrannau diddorol. Yr awdur yn defnyddio profiad personol yn effeithiol.

Blodyn Tatws

Erthygl am straeon rhyfedd ardal Y Mynydd Bach neu Trefenter. Tra bod yr hanesion yn ddiddorol i'w darllen ac yn gofnod gwerthfawr o gymeriadau'r ardal a sut oedd bywyd, nid wyf yn siwr a fyddai'n apelio at gynulleidfa ifanc a mae angen tocio ychydig arni i'w gwneud yn erthygl.

Y Prom

Mae Y Prom yn ysgrifennu am Y Triongl Bermuda. Mae hon yn erthygl ddiddorol i'w darllen ond yn anffodus mae yna wallau ieithyddol ac ambell i idiom Saesneg ynddi. Cofiwch ddarllen dros waith yn ofalus cyn ei gyflwyno.

Hudoles

Erthygl am Anghenfil Loch Ness gawn ni gan Hudoles. Mae'r erthygl wedi ei gosod yn dda a mae'n cloi'n effeithiol efo'r awdur yn mynegi ei barn. Angen cymryd gofal efo'r iaith - mynegiant yn gallu bod yn lletchwith ar adegau.

Neb

Neb yn ysgrifennu am Triongl Bermuda. Erthygl ddiddorol sy'n edrych ar wahanol ddamcaniaethau am y dirgelwch o gychod ac awyrennau'n diflannu. Ambell i wall ieithyddol ond fel arall, mae'n darllen yn rhwydd.

Kolo

Erthygl wedi ei hysgrifennu'n dda am Y Cwpan Ryder gawn ni gan Kolo. Mae hon yn erthygl y gallai apelio at bobl ifanc, yn enwedig rhai sy'n ymddiddori mewn chwaraeon. Angen cymryd ychydig mwy o ofal wrth osod lluniau - mae capsiwn un ohonynt dros ran o'r erthygl.

Brenda

Mae Brenda yn cyflwyno erthygl am ardal ddirgel 51 yn U.D.A. a hefyd yn cysylltu'r sôn mai ardal yn edrych ar arallfydwyr yw hi efo y digwyddiad honedig ar lethrau'r Berwyn yn 1974. Yn anffodus, teimlaf mai wy o gyflwyno gwybodaeth yn hytrach nac erthygl ar gyfer yr ifanc yw hon.

Hapus

Mae Hapus yn ysgrifennu am hanes Plas Nanteos. Fe wnes i fwynhau darllen hon gan fod gogwydd leol iddi. Roedd y gwahanol hanesion yn ddiddorol iawn er fod efallai angen tocio ar hyd rhai ohonynt.

Dilys

Ysgrifennu am wrachod mai Dilys ac ceisio ein perswadio nad y wrach draddodiadol mewn du ar gefn ysgub yw'r unig wrach sy'n bodoli. Er bd y cynnwys yn ddigon diddorol braidd yn bytiog yw rhai o'r brawddegau a mae yma ormod o gyflwyno gwybodaeth.

Tedi

Ysgrifena Tedi am ryfeddodau Llyn Tegid. Testun diddorol a gwahanol i rai o'r lleill. Erthygl sydd wedi ei gosod yn effeithiol - trueni am ambell i wall ieithyddol a diffyg prif lythyren.

M & M's

Erthygl wahanol o ran testun yn trafod tywydd eithafol ar hyd y byd. Hon yn erthygl sydd wedi ei gosod yn dda - trueni eto am wallau ieithyddol a gwallau teipio.

Jelly Tots

Am Chwedl Nessie mae Jelly Tots yn ysgrifennu. Gwybodaeth ddiddorol ond efallai fod yna ormod o bwyslais ar chwydu gwybodaeth yma gan gollir cyfle o'i chyflwyno fel erthygl i'r ifanc. Cofiwch ddarllen dros y gwaith i gael gwared o gamgymeriadau gwirion.

Cardi i'r Carn

Ffugenw da! Yw ysbrydion yn bodoli yw'r thema syn rhedeg drwy'r haesion a geir gan gyfeirio tuag at Cantre'r Gwaelod a Phlas Nanteos fe engrheifftau. Dw i ddim yn siwr sut mae siarad am gyfres ddiectif Y Gwyll yn ffitio i'r thema ond ymdrech dda i lunio erthygl ddiddorol.

Yr Yeti

Am yr ieti mae'r erthygl hon. Mae yma lawer o wybodaeth yn cael ei daflu at y darllenydd - efallai braidd gormod. Gellid tocio ychydig fan fyn fan draw i'w gwneud yn fwy o erthygl yn hytrach nac ymarfer cyflwyno gwybodaeth.

Sinamon

Erthygl am goedwig goll Y Borth a gawn gan Sinamon. Mwynheais ddarllen hon oherwydd y gogwydd lleol. Mae hon wedi ei hysgrifennu'n raenus - un o'r goreuon o ran hynny - ond tybed a fyddai hi'n apelio at bobl ifanc?

Cath Oren

Dyma thema mwya' unigryw y gystadleuaeth mae'n siwr! Sôn am ffermydd bustl eirth yn Asia a wna Cath Oren. Fe ddysgais lawer wrth ddarllen hon! Dydw i ddim yn siwr a fuddai'n apelio at bawb serch hynny. Ond erthygl wedi ei hysgrifennu'n dda a chywir.

Mae yna 5 erthygl ar ôl - mae'r 5 yn cael eu gosod mewn dosbarth yn uwch na'r lleill.

Arglwyddes

Cyfres o erthyglau diddorol gawn gan Arglwyddes yn gwneud rhyw fath o 'mini' papur newydd. Mae'r awdur yn ysgrifennu'n raenus a mae'r cyfan wedi ei osod yn ddeniadol. Trueni fod y lliw piws sy'n gefndir i'r darn ar Ffwl Ebrill yn ei gwneud hi'n anodd i ddarllen y rhan yma.

Pingu

Ysgrifennodd Pingu am Y Goruwchnaturiol Ffug. Hwn yn destun oedd yn apelio ataf i a 'dw i'n siwr yn apelio at bobl ifanc. Wedi ei rannu'n eitemau byr diddorol a'i ysgrifennu'n gywir ar y cyfan.

Mickey Mouse

Calan Gaeaf yw testun erthygl Mickey Mouse. Mae'r rthygl hon wedi cael ei gosod yn dda ac yn drawiadol. Wedi ei hysgrifennu mewn iaith gywir hefyd. Mae'n erthygl ddiddorol a fyddai'n apelio at bobl o bob oedran gan gynnwys pobl ifanc.

Y Ffermwr

Mae'r Ffermwr yn sôn am effaith technoleg mewn amaethyddiaeth yn ei erthygl. Mae hon yn sicr yn erthygl fyddai'n apelio at yr ifanc yn enwedig rhai sy'n ymddiddori mewn ffermio a chefn gwlad. Mae hi wedi ei gosod yn effeithiol ac yn edrych yn hynod o drawiadol. Mae'r ymgeisydd yma yn bendant wedi llwyddo i droi'r dasg o gyflwyno gwybodaeth i erthygl yn llwyddiannus.

Y Ddafad Golledig

Datblygiad cwmni Apple yw thema erthygl Y Ddafad Golledig. Mae hon yn erthygl dda o'r teitl trawiadol - Datblygiad yr Afal i'r diwedd. Er bod yma ambell i wall treiglo, mae hi fel arall wedi ei ysgrifennu'n raenus ac yn bwysig iawn, yn siwr o apelio at bobl ifanc sydd wrth eu boddau efo technoleg a dyfeisiadau Apple. Mae yma gydbwysedd da o ffeithiau a barn yma gan gloi'n effeithiol drwy edrych i'r dyfodol. Erthygl dda y mwynheais ei darllen ac un wedi ei gosod yn effeithiol hefyd.

Rhwng Y Ffermwr a Y Ddafad Golledig mae hi o drwch blewyn, dyfarnaf Dlws yr Ifanc i Y Ddafad Golledig am erthygl raenus fyddai'n siwr o apelio at yr ifanc.

Osian M Jones